Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	27 Medi 2022
LLEOLIAD:	O bell drwy gyfrwng fideo-gynadledda
TEITL:	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
ER:	Penderfyniad

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed ynghylch y cynigion a'r argymhellion.

Mae dwy ran i'r Adroddiad hwn:

a) *Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr/ Arolygiaeth ar gyfer gwella ac argymhellion; a*
b) *Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor*

Y Sefyllfa Bresennol

a) Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr/ Arolygiaeth ar gyfer gwella ac argymhellion

- Diweddariad am Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2020-2021 a 2021-2022:
  - Ffurflen Ymateb – Diweddariad 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (**Atodiad 1**)
  - Nodyn Cynnydd – Ffurflen Ymateb - System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (**Atodiad 2**)
    - Gweler y nodyn cynnydd sydd wedi'i oleuo'n felyn
  - Ffurflen Ymateb – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio (**Atodiad 3**)
    - Fel yr adroddwyd ynghynt ar 17 Ionawr 2022. Gweler y Cynllun Gweithredu yn **Atodiad 4** am ddiweddariad
  - Diweddariad am Gynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gynllunio 24.08.2022 (**Atodiad 4**)
- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2022-23:
  - Ffurflen Ymateb – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli Asedau'n Strategol (**Atodiad 5**)
  - Ffurflen Ymateb – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli'r Gweithlu'n Strategol (**Atodiad 6**)

b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor

ARGYMHELLIAD:	Ystyried ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
Rheswm dros yr Argymhelliad:	Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith sydd ar y gweill
Atodiadau:	**Atodiad 1** - Ffurflen Ymateb – Diweddariad 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru **Atodiad 2** - Nodyn Cynnydd – Ffurflen Ymateb - System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru **Atodiad 3** - Ffurflen Ymateb – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio **Atodiad 4** - Diweddariad am Gynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gynllunio 24.08.2022 **Atodiad 5** - Ffurflen Ymateb – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli Asedau'n Strategol **Atodiad 6** - Ffurflen Ymateb – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli'r Gweithlu'n Strategol
Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a Swyddog Monitro
Dyddiad:	31/8/2022

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru a'r Cynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2020

Pwyllgor Archwilio:

Cyfeirnod y ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/2020-11/raising_our_game_tackling_fraud_in_wales_english.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Mae'r adroddiad hwn yn archwilio saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad o safbwynt mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol: • arweinyddiaeth a diwylliant; • fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth; • polisïau a hyfforddiant; • capasiti ac arbenigedd; • offer a data; • cydweithio; ac • adrodd a chraffu.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny'n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau'n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll.	Byddai'r Cyngor yn croesawu rhoi rôl gydlynu i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, a fyddai'n cynorthwyo ac yn cefnogi cydweithio a chysondeb mewn arferion gweithio o fewn Llywodraeth Leol.
A2	Dylai pob corff cyhoeddus hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, a hyrwyddo ei bwysigrwydd yn weithredol er mwyn rhoi hyder i staff ac aelodau'r cyhoedd na chaiff twyll ei oddef.	• Mae gan y Cyngor 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' a fydd yn destun ei hadolygiad 3 blynedd ym mis Ebrill 2021. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Llywodraethu ac Archwilio ar 3/6/21 ac fe'i cymeradwywyd gan y pwyllgor; cafwyd cymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor ar 17/6/21. Mae copi wedi'i ddiweddaru ar wefan y Cyngor. • Gall y cyhoedd adrodd am unrhyw achosion posibl o dwyll Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a/neu dwyll Budd-dal Tai / budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar-lein trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar wefan y Cyngor • Fel rhan o drefniadau diogelu'r Cyngor, mae tudalen ar y wefan hefyd gyda manylion ynghylch sut y dylid adrodd am amheuon o gam-drin ariannol yn erbyn oedolyn agored i niwed (gan gynnwys twyll/lladrad). • Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll trwy baru data. Rhoddir hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymarfer hwn i staff a'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ac ar Ceri. • Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid. • Darparodd Zurich, yswiriwr y Cyngor, fodiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28 Mai 2021. Yn dilyn y cyflwyniad hwn, defnyddiwyd y sleidiau fel Sylfaen ar gyfer modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff. Darparodd Archwilio Mewnol y cynnwys a chrëwyd y modiwl gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae angen aros am y Cod Ymddygiad diweddaraf, sy'n aros am

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		gymeradwyaeth gan yr Undebau Llafur, cyn y gellir lansio'r modiwl.
A3	Dylai pob corff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risgiau o dwyll, gan ddefnyddio staff sydd â'r sgiliau priodol ac ystyried gwybodaeth genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i sefydliad.	• Mae pob Rheolwr yn llunio cynlluniau busnes sy'n cynnwys eu risgiau busnes – gall twyll gael ei fewnbynnu fel risg os ystyrir bod hynny'n briodol, gan nodi'r camau lliniaru • Mae twyll yn bennawd â blaenoriaeth yng nghynllun gwaith archwilio blynyddol Archwilio Mewnol. Cefnogir hyn gan hysbysiadau oddi wrth gyrff allanol megis NAFN a CIPFA, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill trwy Grwpiau Prif Archwilydd Cymru a thrwy gynnal asesiadau risg mewnol.
A4	Dylai asesiadau o'r risgiau o dwyll gael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hintegreiddio yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod y risgiau dan sylw'n cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen.	Asesir pob risg o fewn cynlluniau busnes / gwasanaeth ar sail effaith a thebygolrwydd yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Caiff unrhyw risgiau sy'n cael sgôr ddilynol yn y categori risg uchel neu gritigol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cael ei monitro gan y Grŵp Arweiniol, a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
A5	Mae angen i bob corff cyhoeddus gael cyfres gynhwysfawr wedi'i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau, sydd gyda'i gilydd yn strategaeth gydlynus ar gyfer nodi a rheoli risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.	• Mae'r 'Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' yn cwmpasu atal, canfod ac ymchwilio i dwyll. • Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn darparu proses gynhwysfawr ar gyfer nodi a lliniaru'r holl risgiau. • Mae'r 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed' yn cynnwys proses atgyfeirio gyda ffurflenni ategol os yw cam-drin ariannol yn cael ei amau • Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban os hoffai staff adrodd am bryder, a gellir gwneud hynny yn

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		ddienw. • Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau uchod yn cael eu hategu gan becynnau hyfforddi amrywiol i'r staff.
A6	Dylai staff sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo'n briodol i'w rôl, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadau o safbwynt atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo.	• Mae Swyddogion Gorfodi megis staff Safonau Masnach yn gymwysedig i gynnal cyfweliadau PACE. • Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn trefnu hyfforddiant mewnol i staff sy'n 'swyddogion ymchwilio' dynodedig ar gyfer materion disgyblu. • Mae swyddog diogelu dynodedig hyfforddedig ar gyfer pob gwasanaeth ac mae honiadau o gam-drin yn erbyn pobl agored i niwed yn cael eu hadrodd i'r swyddogion hyn. • Mae gan y Rheolwr Archwilio Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio (CCIP), ac mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech). • Darparodd Zurich, yswiriwr y Cyngor, fodiwl hyfforddi ar Foeseg a Thwyll i Weithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28 Mai 2021. Yn dilyn y cyflwyniad hwn, defnyddiwyd y sleidiau fel sail ar gyfer modiwl e-ddysgu i'r holl staff. Darparwyd y cynnwys gan Archwilio Mewnol a chrëwyd y modiwl gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae angen aros am y Cod Ymddygiad diweddaraf, sy'n aros am gymeradwyaeth gan yr Undebau Llafur, cyn y gellir lansio'r modiwl.
A7	Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle caiff twyll ei ganfod a lle eir i'r afael ag ef yn llwyddiannus, er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o'r brig na chaiff twyll ei oddef.	• Mae unrhyw waith gorfodi sy'n arwain at achosion llys llwyddiannus yn cael sylw yn y wasg leol.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		• Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio, gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol ar waith.
A8	Mae angen i bob corff cyhoeddus greu digon o gapasiti i sicrhau bod gwaith atal twyll yn cael adnoddau effeithiol, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy'n arwain at gosbi'r tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion.	Nid oes gan y Cyngor dîm twyll dynodedig, ond mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan swyddogion yr ystyrir eu bod yn briodol i bob achos yn ôl eu profiad / cymwysterau (gweler pwynt A6 uchod).
A9	Dylai pob corff cyhoeddus fod yn medru cael gafael ar staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch atal twyll ac sy'n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig.	Gweler pwynt A8 uchod.
A10	Dylai pob corff cyhoeddus ystyried modelau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n ymwneud â chyfuno / rhannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o staff ar gael sydd â'r sgiliau priodol.	Mae Grŵp Prif Archwilydd Gogledd a Chanolbarth Cymru wrthi'n atgyfodi'r Gweithgor Twyll Arbenigol a fydd yn cynorthwyo trwy roi cymorth a chysondeb ar gyfer arferion twyll Archwilio Mewnol yn yr aelod-awdurdodau.
A11	Mae angen i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion deinamig a hyblyg ym maes atal twyll, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd camau gorfodi llwyddiannus yn cael eu cymryd ac sy'n ategu'r agwedd o'r brig nad yw'r sefydliad yn goddef twyll.	Gweler pwynt A8 uchod.
A12	Dylai pob corff cyhoeddus archwilio a chroesawu cyfleoedd i arloesi gyda gwyddor dadansoddi data, er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.	Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd 'Activedata' i weithredu technegau gwyddor dadansoddi data o fewn systemau lle y bo'n briodol, e.e. wrth brosesu grantiau Covid.
A13	Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes gwyddor dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ganfod twyll a brwydro yn ei erbyn.	Mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn rheolaidd er mwyn atal a chanfod twyll

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		trwy baru data rhwng ei wasanaethau ei hun a gyda chyrff sector cyhoeddus cenedlaethol eraill.
A14	Mae angen i gyrff cyhoeddus grynhoi gwybodaeth am golledion ac adenillion a rhannu gwybodaeth â'i gilydd am dwyll er mwyn creu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaeth, gwella gwaith monitro a hybu camau gweithredu a gaiff eu targedu.	Ym marn y Cyngor mae hon yn dasg sy'n briodol i Lywodraeth Cymru os yw'n derbyn y rôl gydlynu o ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer atal twyll ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gweler pwynt A1 uchod)
A15	Rhaid i Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu ddechrau ymwneud yn llawn ag atal twyll, gan ddarparu cymorth a chyfeiriad, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif.	• Mae'r gwaith atal twyll Archwilio Mewnol a wneir yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. • Gall unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, neu am gam gweithredu mewn adroddiad archwilio, gael ei alw gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod y systemau / camau gweithredu priodol ar waith.

Crynodeb o Adroddiad Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru a Chynigion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Swyddfa Archwilio Cymru

Teitl yr adroddiad: System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 14 Hydref 2020

Pwyllgor Archwilio: 12 Tachwedd 2020

Cyfeirnod y ddogfen: https://audit.wales/sites/default/files/WCCIS-Eng_10.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad
Bwriad System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yw galluogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio un system a chofnod electronig a rennir. Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar fanteision cyflwyno WCCIS wedi bod yn destun trafod ac adolygu o'r cychwyn cyntaf. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith adrodd addas.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn ymrwymo unrhyw gyllid canolog pellach, yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r cyflenwr i: • lunio achos busnes wedi'i ddiweddaru sy'n ystyried costau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r system ymhellach, ei defnyddio dros weddill tymor y contract, datblygu safonau data cenedlaethol a chynllunio ar gyfer unrhyw drefniadau olynol; • sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw'r gallu angenrheidiol i gefnogi gweithredu a'u bod yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r rhaglen o fewn cynllun y cytunwyd arno'n glir; a • dwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol clir ar adborth gan ddefnyddwyr rheng flaen am berfformiad ac ymarferoldeb cyffredinol y system.	Cynllun datblygu clir rhwng yr Awdurdod Lleol ac Iechyd ar ddatblygiad y system yn y dyfodol. Yn rhanbarthol rydym yn rhannu data â'n Bwrdd Iechyd trwy'r system ac wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r system. Nid yw Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth wedi llofnodi'r gorchymyn eto, felly dim ond ymgysylltiad cyfyngedig sydd gennym ar hyn o bryd. Yn rhanbarthol, rydym yn datblygu cynlluniau lleol ar ddatblygu'r safonau data cenedlaethol a rhyng-weithrededd yr holl systemau o fewn y rhanbarth.

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thîm y Rhaglen Genedlaethol i ystyried: • sut y gellid bod wedi cryfhau contract WCCIS i gefnogi a chymell y broses o gyflawni a rheoli risg; a • sut y gellir cymhwyso gwersi perthnasol i unrhyw drefniadau contractio olynol a chaffael cyhoeddus ehangach.	Adnodd canolog o ddylunio a datblygu busnes - cynllunio unwaith ar gyfer pob defnyddiwr, setiau data cyffredin, llifau gwaith cyffredin. Rhaid i bob rhanddeiliad fod wedi ymrwymo i'r cynnyrch a rhoi llinell amser glir ar gyfer gweithredu. Gellir cyflawni hyn dim ond os yw pob un yn rhan o'r fanyleb a'r broses gaffael.

Sylwer: Nid oes diweddariad pellach i'w ddarparu ar hyn o bryd gan fod yr argymhellion i Lywodraeth Cymru eu gweithredu ac mae'r Cyngor yn aros am eu cynllun. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda lle bo modd.

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio

Dyddiad cyhoeddi: 16eg Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2602A2021-22

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	Llywodraethu			
A1	Dylai'r Cyngor adolygu ei gyfansoddiad i gryfhau'r broses o lywodraethu ei drefniadau rheoli datblygu. Dylai'r adolygiad: • dysgu o drefniadau llywodraethu rheoli datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) eraill; • datblygu Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, i ddatgan yn glir	• Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu camau a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gwneud penderfyniadau. • Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gynllun Gweithredu ar 6ed Gorffennaf a oedd yn cynnwys ystod o dasgau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac fe'i	Mawrth 2022	Russell Hughes-Pickering (RHP), Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cefnogaeth gan Reoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol; • diffinio'r hyn y mae'n ei ystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr'; • cryfhau cynllun dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy ystyried codi'r trothwy ar gyfer ceisiadau cynllunio a elwir yn Bwyllgor i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a cheisiadau mawr; • sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid o dan bwerau dirprwyedig swyddogion i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder; • adolygu cydbwysedd yr amser y mae'n rhaid i aelodau wardiau lleol siarad ar geisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr; a • adolygu a chynnwys Cod Ymarfer Cynllunio'r Cyngor yn y cyfansoddiad	diwygiwyd ar 10fed Tachwedd i gynnwys argymhellion Adroddiad Cynllunio Archwilio Cymru. • Mae adolygiad o'r Cyfansoddiad ac arfer ar hyn o bryd, gan ystyried trefniadau mewn awdurdodau eraill, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. • Mae Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i ddrafftio. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 10fed Rhagfyr ac yn cael ei adrodd gyda newidiadau arfaethedig eraill i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr. • Mae diwygiadau i'r Cyfansoddiad wedi'u drafftio sy'n cynnig diwygiadau i'r adran ar ddirprwyaethau. Mae cynigion drafft yn cynnwys adrodd yn awtomatig: ceisiadau strategol a mawr; ceisiadau'r cyngor ei hun; Ceisiadau aelodau a staff penodol i'r Pwyllgor. Bydd y rhain yn cael eu trafod i ddechrau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 10fed Rhagfyr. • Mae papur wedi'i ddrafftio ar y rôl ac amser a ganiateir i Aelodau Wardiau lleol siarad yn y Pwyllgor. Mae hyn i'w ystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 10fed Rhagfyr. • Mae Cod Ymarfer diwygiedig a'r Gweithdrefnau Gweithredol sy'n cyd-		Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	a sicrhau bod aelodau'n ei ddeall ac yn gweithredu yn unol ag ef.	fynd wedi'i ddrafftio. Ystyriwyd hyn i ddechrau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 30ain Tachwedd. Efallai y bydd angen diwygiadau pellach wrth i ymatebion eraill gael eu cytuno.		
A2	Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a'i drefniadau cymorth pwyllgorau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.	• Bydd aelodau'n cael hyfforddiant ar eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel rhan o'r hyfforddiant i aelodau newydd ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol drafft ar gyfer aelodau wrth gynllunio.	Mai / Mehefin 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd a Chyswllt Cwsmeriaid
A3	Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.	• Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar broses ohirio er mwyn 'callio' ym mis Gorffennaf 2021. Rhannwyd a chytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14eg Gorffennaf 2021. • Gweithredwyd y broses gyntaf mewn achosion a ystyriwyd yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 28ain Gorffennaf 2021. • Mae sawl achos wedi cael eu hystyried a'u hadrodd yn ôl ers hynny.	Ar waith	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		• Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu ar ôl chwe mis fel y gellir rhoi trefniadau mwy parhaol ar waith. • Yn ychwanegol at y broses ohirio er mwyn callio, cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ar 26ain Hydref 2021, i ailddechrau rhaglen hyfforddi ar gyfer Aelodau o Ionawr 2022. • Bydd yn canolbwyntio i ddechrau ar Bolisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol; Ffosffadau; a Chyfraith Achosion		
A4	Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu 'cyhoeddus' ar gael i'r cyhoedd ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i gadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y dyfodol.	• Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o Fai 2022. Ar hyn o bryd mae offer newydd yn cael ei osod yn y Siambr Rhagfyr 2021/Ionawr 2022. Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio ac yn sicrhau eu bod ar gael ar-lein.	Mai 2022	Gwasanaethau Democrataidd, Cyswllt Cwsmeriaid.
A5	Dylai'r Cyngor sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â chartrefi 'fforddiadwy' yng nghefn gwlad agored yn cael eu gwneud a'u hadrodd yn gywir yn unol â chanllawiau atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor.	• Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chydymffurfiad â'r Canllawiau Cynllunio Atodol o ran Cartrefi Fforddiadwy at nifer o systemau monitro mewnol y cyngor a bydd adroddiadau'r pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer eiddo Cartrefi Fforddiadwy yn	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio a Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		nodi'n benodol a yw'r cynnig yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol o ran Cartrefi Fforddiadwy. • Gwneir adolygiad o'r holl ganiatadau cyfredol a blaenorol ar gyfer Cartrefi Fforddiadwy a bydd eu statws yn unol â chydymffurfiad yn cael ei ddiweddaru ar systemau'r cyngor. • Adroddir am hyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Ionawr 2022.		
A6	Dylai'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu asesu goblygiadau cronnol ac effaith seilwaith hirdymor cymeradwyo anheddau fforddiadwy sengl a cheisiadau cynllunio TAN 6 yng nghefn gwlad agored er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gynaliadwy ac yn gydlynol at flaenoriaethau corfforaethol ehangach y Cyngor.	• Bydd ymateb i'r argymhelliad hwn yn edrych ar dai fforddiadwy ac anheddau TAN6 ar wahân. Yn ôl eu hunion ddiffiniad, bydd angen lleoli ceisiadau TAN6 yn ymarferol agos at y daliad amaethyddol neu'r annedd. Mae polisïau hefyd yn caniatáu ar gyfer tai fforddiadwy lle maent yn aneddiadau neu'n gyfagos iddynt. • Mae swyddogion yn datblygu rhestr wirio cynaliadwyedd i'w defnyddio gan aelodau yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu i asesu effeithiau unigol a chronnol gwneud penderfyniadau – yn sail i hyn y mae Polisi Cynllunio Cymru 11, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau corfforaethol y cyngor. Bydd y rhestr wirio yn cael ei chwblhau ymlaen llaw ar gyfer aelodau gan	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio a Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		swyddogion cynllunio a bydd yn rhan o'r pecyn agenda yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer gwneud penderfyniadau. • Adroddir am hyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Ionawr 2022.		
	Cynllunio Gwasanaethau			
A7	Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor: Cyflwyno ei wybodaeth a'i thargedau perfformiad yn gliriach yn ei gynlluniau busnes.	• Bydd Cynlluniau Busnes a Gwasanaeth yn cael eu hadolygu. • Mae Briff Tendr wedi'i ddrafftio ar gyfer penodi ymgynghorwyr i helpu i glirio ôl-groniadau o ran ceisiadau cynllunio a gorfodi. • Bydd hyn yn helpu i fod yn sail i dargedau a mesurau perfformiadau diwygiedig.	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio.
A8	Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad.	• Mae hyn i'w adolygu pan fydd llwyth achosion wedi'u lleihau.	Hydref 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Rheoli Datblygu.
	Monitro			
A9	Dylai'r Cyngor sefydlu fframwaith i sicrhau ei hun bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfrannu'n gydlynol ac yn gynaliadwy at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.	• Bydd penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion ac nad ydynt yn cyflawni meini prawf y rhestr wirio sy'n cael eu datblygu o dan A6 yn cael eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol ac	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		yn cael eu hadrodd i'r gweithdrefnau archwilio mewnol.		Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd
	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol			
A10	Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ystyried sut y gallai weithredu'n agosach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio.	• Adolygu Polisi Cynllunio Cymru a fframweithiau monitro eraill i nodi ffyrdd o ddal cyfraniadau at gyflawni amcanion llesiant. • Adolygu sut y gellir gwneud hyn yn gliriach yn adroddiadau'r Pwyllgor. Ar hyn o bryd yn adolygu adroddiadau awdurdodau eraill. • Briffiau / hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynaliadwyedd.	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd

Cynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio

Cyf	Cam Gweithredu	Amserlen	Statws / Sylwadau	Pwy	Dogfennau Allweddol
Tasg 1: Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a phenodi Cadeirydd					
1.1	Cytuno ar Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen	28 Mehefin 2021	Cwblhawyd		
1.2	Penodi Cadeirydd	28 Mehefin 2021	Cwblhawyd		
1.3	Trefnu cyfarfodydd	29 Mehefin 2021	Cwblhawyd		
1.4	Cytuno ar Gynllun Gweithredu	6 Gorffennaf 2021	Cwblhawyd Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen 'fyw'. Caiff y ddogfen ei hadolygu ymhob cyfarfod.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP	Cynllun Gweithredu (Dogfen TF1) y cytunwyd arno ac a adolygwyd
Tasg 2: Cytuno ar drefniadau ar gyfer ystyried penderfyniadau 'coch' sy'n uchel o ran risg					
2.1	Ystyried cyflwyno cyfnod 'callio' o 28 diwrnod	Canol mis Gorffennaf 2021	Cwblhawyd Cyflwynwyd y broses 'callio' ym mis Gorffennaf 2021 gan ystyried paragraff 9.6.17 – Y Llawlyfr Rheoli Datblygu (Dogfen TF2) Dogfen TF10 – Trafodwyd y 'Cyfnod Callio' yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 20 Gorffennaf.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	Cyflwynwyd y geiriad diwygiedig fel TF10.
2.2	Cytuno ar ddiffiniad ar gyfer achosion 'coch' sy'n uchel o ran risg	Canol mis Gorffennaf 2021	Cwblhawyd Ystyriwyd y diffiniadau drafft (Dogfen TF4) gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 20 Gorffennaf.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP	Y diffiniadau drafft (Dogfen TF4)
2.3	Ceisio cael cytundeb ar y trefniadau newydd ac amserlen ar gyfer eu cyflwyno gyda'r Aelodau eraill	Diwedd mis Gorffennaf 2021	Cwblhawyd Rhannwyd y Cynllun Gweithredu â'r Pwyllgor a'r		

			Aelodau eraill cyn cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14 Gorffennaf.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen	Y Cynllun Gweithredu (Dogfen TF1)
2.4	Cytuno ar eiriad ar gyfer y Cyfansoddiad a / neu'r Cod Ymddygiad Cynllunio ar gyfer Aelodau a Swyddogion	Gorffennaf / Awst 2021 – Mawrth 2022	Cwblhawyd Rhannwyd enghreifftiau yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 27 Gorffennaf. Cytunwyd ar newidiadau i'r Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2022. Roedd hyn yn cynnwys – Gweithdrefnau Gweithredol, Cod Ymarfer, Pwerau Dirprwyedig Diwygiedig	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, RHP	Cyfansoddiad Mawrth 2022
2.5	Gweithredu am gyfnod prawf	Gorffennaf 2021	Cwblhawyd Gweithredwyd yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 28 Gorffennaf. Ers hynny, cyfeiriwyd ceisiadau at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Pwyllgor	
2.5	Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr. **Argymhelliad A3 Archwilio Cymru**	Tachwedd 2021-Mawrth 2022	Ar waith Mae hyn yn cysylltu â Gweithred 3.10 isod. Rhesymau enghreifftiol ar gyfer penderfyniadau sy'n mynd yn groes i'r polisi. Hefyd Tasg 9: Hyfforddiant i Aelodau. Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar broses ohirio er mwyn 'callio' ym mis Gorffennaf 2021.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Pwyllgor, RHP	

		Mai 2022	Ar 26 Hydref 2021, cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ailddechrau rhaglen hyfforddi ar gyfer Aelodau o fis Ionawr 2022 ymlaen. Dylai ganolbwyntio ar Bolisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol; Ffosffadau; a Chyfraith Achosion. Trafodwyd y rhain yn yr hyfforddiant i Aelodau yn dilyn yr etholiadau.		
2.6	Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio	Mawrth 2022	Cwblhawyd Ystyriwyd fel rhan o'r newidiadau i'r pwerau dirprwyedig yn y Cyfansoddiad.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, RHP	Cyfansoddiad Mawrth 2022
Tasg 3: Adolygu Dirprwyaethau a Phrosesau'r Pwyllgor – Dylai'r Cyngor adolygu ei gyfansoddiad i gryfhau'r broses o lywodraethu ei drefniadau rheoli datblygu (Argymhelliad A1 Archwilio Cymru)					
3.1	Dysgu o drefniadau llywodraethu rheoli datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) eraill. **Argymhelliad A1a Archwilio Cymru.**	Rhagfyr 2021	Cwblhawyd Mae'r newidiadau a gododd o'r Cynllun Gweithredu wedi ystyried arferion awdurdodau eraill.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Pwyllgor, Gwasanaethau Cyfreithiol a	

				Llywodraethu, Rheoli Datblygu, Polisi, RHP	
3.2	Diwygio'r Pwerau Dirprwyedig • Achosion 'coch' • Ceisiadau â diffyg gwybodaeth • Ffosffadau • Pan fo Aelodau'n datgan buddiant	Medi – Mawrth 2022	Cwblhawyd Cytunwyd ar newidiadau i'r Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2022. Roedd hyn yn cynnwys – Gweithdrefnau Gweithredol, Cod Ymarfer, Pwerau Dirprwyedig Diwygiedig	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, RHP	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.3	Adolygu'r achosion a gyflwynir i'r Pwyllgor • Ceisiadau Mawr • Datblygiadau'r Cyngor ei hun Diffinio'r hyn y mae'n ei ystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr'. **Argymhelliad A1c Archwilio Cymru.** Cryfhau cynllun dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy ystyried codi'r trothwy ar gyfer ceisiadau cynllunio a gyflwynir i'r Pwyllgor, i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a cheisiadau mawr. **Argymhelliad A1d Archwilio Cymru.**	Medi – Mawrth 2022	Cwblhawyd Cytunwyd ar newidiadau i'r Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2022. Roedd hyn yn cynnwys – Gweithdrefnau Gweithredol, Cod Ymarfer, Pwerau Dirprwyedig Diwygiedig Mae'r newidiadau i'r pwerau dirprwyedig yn gwahaniaethu rhwng y ceisiadau strategol / mawr a'r ceisiadau llai.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.4	Sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid o dan bwerau dirprwyedig swyddogion i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder. **Argymhelliad A1e Archwilio Cymru.**	Tachwedd 2021 – Mawrth 2022	Cwblhawyd Mae'r newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cynnwys adrodd yn awtomatig am y canlynol: ceisiadau strategol a mawr; ceisiadau'r Cyngor ei hun;	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu,	Cyfansoddiad Mawrth 2022

			ceisiadau gan Aelodau a staff penodol i'r Pwyllgor.	Rheoli Datblygu	
3.5	Adolygu cydbwysedd yr amser sydd gan aelodau wardiau lleol i siarad ar geisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr. **Argymhelliad A1f Archwilio Cymru.**	Tachwedd 2021 – Mawrth 2022	Cwblhawyd Ystyriwyd papur ynghylch rôl Aelodau Wardiau lleol a'r amser a roddir iddynt siarad yn y Pwyllgor. Mae'r newidiadau wedi'u cynnwys yn y Cyfansoddiad.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, Rheoli Datblygu, RHP	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.6	Cytuno ar Gylch Gorchwyl Datblygu Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, i ddatgan yn glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â'r Blaenoriaethau Corfforaethol. **Argymhelliad A1b Archwilio Cymru.**	Tachwedd 2021 - Mawrth 2022	Cwblhawyd Ceir Cylch Gorchwyl diwygiedig yn y Cyfansoddiad.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.7	Adolygu maint y Pwyllgor	Hydref 2021 – Mawrth 2022	Cwblhawyd Trafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 30 Tachwedd. Ar 27 Ionawr 2022, cytunodd y Cyngor i ostwng y nifer i 15.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022

3.8	Cyflwyno Cod Ymddygiad Cynllunio ar gyfer Aelodau a Swyddogion a Phrotocol ar gyfer ystyried ceisiadau. Adolygu a chynnwys Cod Ymarfer Cynllunio'r Cyngor yn y cyfansoddiad a sicrhau bod aelodau'n ei ddeall ac yn gweithredu yn unol ag ef. **Argymhelliad A1g Archwilio Cymru.**	Hydref – Mawrth 2022	Cwblhawyd Mae'r Cod Ymarfer a'r Gweithdrefnau Gweithredol cysylltiedig wedi'u cynnwys yn y Cyfansoddiad.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.9	Darparu rhesymau enghreifftiol dros gyfeirio achos at y Pwyllgor.	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.10	Darparu cyngor ynghylch rhoi rhesymau ar gyfer achosion sy'n mynd yn groes i'r polisi. Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr. **Argymhelliad A3 Archwilio Cymru.**	Mawrth 2022	Cwblhawyd Mae cyngor wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer. Bydd cyngor pellach yn cael ei ddarparu mewn hyfforddiant a sesiynau briffio ar gyfer Aelodau.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.11	Adolygu'r Broses a'r Protocolau ar gyfer y Panel Archwilio Safleoedd.	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'i gynnwys fel rhan o'r newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r Protocol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd,	Cyfansoddiad Mawrth 2022

				RHP, Rheoli Datblygu	
3.12	Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a'i drefniadau cymorth pwyllgorau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. **Argymhelliad 2 Archwilio Cymru.**	Mai / Mehefin 2022	Cwblhawyd Derbyniodd yr Aelodau hyfforddiant ynghylch eu goblygiadau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel rhan o'r hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd ac mae adran ynghylch y ddeddfwriaeth honno wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Democrataidd, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Diogelu Data, Rheoli Datblygu, RHP	Cyfansoddiad Mawrth 2022
3.13	Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu 'cyhoeddus' ar gael i'r cyhoedd ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i gadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y dyfodol. **Argymhelliad A4 Archwilio Cymru.**	Mai / Mehefin 2022	Ar waith Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022 ymlaen. Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio a gallant gael eu rhannu ar-lein. Ni wnaed penderfyniad eto ynghylch a ddylai'r recordiadau fod ar gael neu beidio.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Democrataidd, RHP	
3.14	Adolygu'r Cyfansoddiad	Mawrth 2022	Cwblhawyd	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau	Cyfansoddiad Mawrth 2022

				Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio	
Tasg 4: Adolygu Effaith y Penderfyniadau a Wneir ar gyflwyno Datblygu Cynaliadwy ac Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol					
4.1	Dylai'r Cyngor sefydlu fframwaith i sicrhau ei hun bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfrannu'n gydlynol ac yn gynaliadwy at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. **Argymhelliad A9 Archwilio Cymru.**	Ionawr – Rhagfyr 2022	Ar waith Mae fframwaith yn cael ei ddatblygu. Gellir adolygu'r wybodaeth yn flynyddol fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Polisi a Pherfformiad, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, RHP	
4.2	Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ystyried sut y gallai weithredu'n agosach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio. **Argymhelliad A10 Archwilio Cymru.**	Ionawr – Rhagfyr 2022	Ar waith Adolygu Polisi Cynllunio Cymru a fframweithiau monitro eraill er mwyn canfod ffyrdd o ddal y cyfraniadau at gyflawni'r amcanion llesiant a'r cysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 yn nodi sut y mae egwyddorion datblygu cynaliadwy'n sail	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Polisi a Pherfformiad, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, RHP	

			i'r amcanion a'r camau gweithredu yn y cynllun. Sesiynau briffio / hyfforddiant ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynaliadwyedd.		
4.3	Dylai'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu asesu goblygiadau cronnol ac effaith seilwaith hirdymor cymeradwyo anheddau fforddiadwy sengl a cheisiadau cynllunio TAN 6 yng nghefn gwlad agored er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gynaliadwy ac yn gydlynol at flaenoriaethau corfforaethol ehangach y Cyngor. **Argymhelliad A6 Archwilio Cymru.**	Ionawr – Rhagfyr 2022	Ar waith Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar dai fforddiadwy ac anheddau TAN6 ar wahân. Yn ôl eu hunion ddiffiniad, bydd angen lleoli ceisiadau TAN6 yn ymarferol agos at y daliad amaethyddol neu'r annedd. Mae polisïau hefyd yn caniatáu tai fforddiadwy pan maent mewn aneddiadau neu'n gyfagos iddynt. Mae swyddogion yn datblygu rhestr wirio i'w defnyddio wrth ystyried effeithiau unigol a chronnol y penderfyniadau a wneir – yn sail i hyn y mae Polisi Cynllunio Cymru 11, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Polisi a Pherfformiad, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, RHP	

			Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo.		
4.4	Dylai'r Cyngor sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â chartrefi 'fforddiadwy' yng nghefn gwlad agored yn cael eu gwneud a'u hadrodd yn gywir yn unol â chanllawiau atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor. **Argymhelliad A5 Archwilio Cymru.**	Ionawr – Rhagfyr 2022	Ar waith Mae gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys yn adroddiadau'r pwyllgor ar gyfer eiddo Cartrefi Fforddiadwy sy'n nodi'n benodol a yw'r cynnig yn cyd-fynd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol o ran Cartrefi Fforddiadwy. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r holl ganiatadau cyfredol a blaenorol ar gyfer Cartrefi Fforddiadwy er mwyn asesu eu cydymffurfiad â'r polisïau a'r canllawiau cynllunio atodol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, RHP	
Tasg 5: Adolygu Rôl yr Aelod Lleol					
5.1	Cytuno ar gyngor a phrotocol ar gyfer yr Aelod Lleol	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'u cynnwys yn y newidiadau i'r Cyfansoddiad – gweithdrefnau gweithredol a'r Cod Ymarfer	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022

5.2	Adolygu'r protocol ar gyfer cyswllt gan swyddogion yn ystod y cyfnod ymgeisio a chyn y Pwyllgor	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'i gynnwys yn y newidiadau i'r Cyfansoddiad – gweithdrefnau gweithredol a'r Cod Ymarfer	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
5.3	Ystyried a ddylai'r Aelod lleol gael pleidleisio os yw'n Aelod o'r Pwyllgor	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'i gynnwys yn y newidiadau i'r Cyfansoddiad – gweithdrefnau gweithredol a'r Cod Ymarfer	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
5.4	Cytuno ar broses ar gyfer pwerau dirprwyedig pan fo'r Aelod lleol wedi datgan buddiant	Mawrth 2022	Cwblhawyd Wedi'i chynnwys yn y newidiadau i'r Cyfansoddiad – gweithdrefnau gweithredol a'r Cod Ymarfer	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu	Cyfansoddiad Mawrth 2022
Tasg 6: Protocol ar gyfer Derbyn Cyngor Swyddogion yn y Pwyllgor					
6.1	Adolygu'r trefniadau presennol	Medi 2021	Cwblhawyd Trafodwyd y trefniadau presennol yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 20 Gorffennaf. Ni fwriedir newid y trefniadau presennol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd,	

				RHP, Rheoli Datblygu	
6.2	Cytuno ar brotocol ar gyfer ystyried ceisiadau yn y Pwyllgor	Rhagfyr 2021	Cwblhawyd Ni fwriedir newid y trefniadau presennol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu	
Tasg 7: Gwella'r Ffordd y Caiff Gwasanaethau eu Cynllunio					
7.1	Cyflwyno gwybodaeth a thargedau perfformiad yn gliriach yn y cynlluniau busnes. **Argymhelliad A7 Archwilio Cymru**	Mawrth 2022 a Hydref 2022	Ar waith Mae ymrwymiad i ddatblygu data perfformiad wedi'i gynnwys yn y cynlluniau busnes a gwasanaeth ar gyfer 2022/23. Erbyn mis Hydref 2022 bydd targed ar gyfer perfformiad a safon y gwasanaeth yn cael ei bennu a'i gytuno. Mae'r amserlen yn adlewyrchu'r amser sydd ei angen i ddatblygu elfennau eraill y Cynllun Gweithredu, materion yn ymwneud â staffio, yr angen i roi trefniadau ar waith er mwyn ymgysylltu ag	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu	

			ymgynghorwyr a delio â chwynion. Erbyn hyn mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i helpu i glirio'r ôl-groniadau o ran ceisiadau cynllunio a gorfodi. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at dargedau a mesurau perfformiad diwygiedig.		
7.2	Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad. **Argymhelliad A8 Archwilio Cymru.**	Rhagfyr 2022	Ar waith Bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd llwythi achosion wedi'u lleihau.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, RHP	
7.3	Adolygu adnoddau, ystyried cymryd camau gweithredu i glirio ôl-groniadau ac ychwanegu cydnerthedd i'r tîm.	Mawrth 2022	Ar waith Mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i helpu i glirio'r ôl-groniadau o ran ceisiadau cynllunio a gorfodi. Hefyd, mae'r Cyngor wedi penodi Cadnant, sy'n arbenigo mewn adeiladau hanesyddol ac adeiladau rhestredig, er mwyn cynorthwyo gyda'r cynigion ar gyfer Yr Hen Goleg. Mae'r Cyngor hefyd yn chwilio am gymorth i ddelio	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, RHP	

			gyda'r materion ecolegol sy'n codi o'r sefyllfa gyda ffosffadau. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio recriwtio staff ar gyfer y timoedd Rheoli Datblygu a Pholisi.		
Tasg 8: Gwella safon y wybodaeth a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol					
8.1	Ailgychwyn cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Fforwm Asiantiaid	Hydref 2021	Ar waith Ystyriwyd hyn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 20 Gorffennaf. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Asiantiaid ar 22 Hydref.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu	
8.2	Adolygu'r canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid – er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd cael cyngor cyn ymgeisio	Rhagfyr 2022	Ar waith Bu oedi yn y gwaith hwn oherwydd pwysau gwaith eraill. Bydd adolygiadau'n cael eu hystyried yn ystod tymor yr hydref eleni.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu	
8.3	Adolygu'r canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid – er mwyn pwysleisio pwysigrwydd safon yr hyn a gyflwynir yn y cais – glynu at bolisi, maint addas, lleoliad a'r wybodaeth ategol.	Rhagfyr 2022	Ar waith Bu oedi yn y gwaith hwn oherwydd pwysau gwaith eraill. Bydd adolygiadau'n cael eu hystyried yn ystod tymor yr hydref eleni.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu	
8.4	Adolygu'r canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid – lobio Aelodau a chyflwyno gwybodaeth cyn y Pwyllgor	Rhagfyr 2022	Ar waith Gwnaed newidiadau yn y Cod Ymarfer. Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu i asiantiaid.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu	

Tasg 9: Darparu Hyfforddiant a Sesiynau Briffio i Aelodau					
9.1	Trefnu rhaglen o hyfforddiant a sesiynau briffio rheolaidd, gan gynnwys: • Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol • Ffosffadau • Cyfraith Achosion	Gorffennaf 2022	Ar waith Darparwyd hyfforddiant i'r holl Aelodau yn dilyn yr etholiadau. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu drwy sesiynau briffio rheolaidd, gyda'r un cyntaf ym mis Gorffennaf.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd, RHP, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio	
9.2	Cytuno ar hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr yn dilyn yr etholiad	Mai / Mehefin 2022	Cwblhawyd Darparwyd hyfforddiant ym mis Mai 2022.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Democrataidd	
Tasg 10: Adolygu'r modd yr ariennir adnoddau er mwyn gwneud mwy o waith gorfodi ar ddatblygiadau diawdurdod					
10.1	Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad. **Argymhelliad A8 Archwilio Cymru.**	Mehefin / Medi / Rhagfyr 2022	Ar waith Caiff hyn ei ystyried ochr yn ochr â 7.3 uchod. Bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd y llwythi achosion wedi'u lleihau.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, RHP	
10.2	Paratoi adroddiad ynghylch: • Adnoddau o ran staff • Nifer yr achosion • Dadansoddiad o'r math • Incwm	Medi 2021	Cwblhawyd Cyflwynwyd diweddariad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 7 Medi a 25 Ionawr 2022. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu drwy benodi	RHP, Rheoli Datblygu	

			ymgynghorwyr. Caiff y tendr ei gyhoeddi erbyn 11 Chwefror 2022.		
10.3	Ystyried yr angen i adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol.	Rhagfyr 2022	Ar waith Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen	
10.4	Ystyried y gyllideb sydd ar gael a chytuno ar adnoddau newydd os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.	Mawrth 2022	Cwblhawyd Trafodwyd yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 26 Hydref. Wedi hynny cytunwyd ar gyllidebau ar gyfer penodi ymgynghorwyr ac ymestyn y tîm gyda swydd barhaol, llawn amser ychwanegol.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen	
10.5	Adolygu'r Siarter Gorfodi – pennu categori ar gyfer yr achosion a'r amserlen ar gyfer delio â chwynion gorfodi	Rhagfyr 2022	Ar waith I'w adolygu'n ddibynnol ar yr uchod.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP, Rheoli Datblygu	
10.6	Ystyried pwerau eraill – Enillion Troseddau	Rhagfyr 2022	Heb ddechrau Penderfynwyd canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer clirio ôl-groniadau a gwella perfformiad cyn mynd i'r afael â dulliau newydd.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, RHP, Rheoli Datblygu	
10.7	Cyflwyno trefniadau i fonitro ac adrodd yn rheolaidd am ddata perfformiad gorfodi	Mawrth 2022	Ar waith Mae'r trefniadau hyn yn rhan o'r Cynllun Busnes a Gwasanaeth ar gyfer 2022/23. Bydd perfformiad	Grŵp Gorchwyl a Gorffen, RHP,	

			a safon y gwasanaeth yn cael eu hystyried yn ystod tymor yr hydref 2022.	Rheoli Datblygu	

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu sydd wedi eu trefnu mewn ymateb i'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Llamu Ymlaen – Adolygiad Rheoli Asedau'n Strategol

Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2970A2022

Cyfeirnod	Argymhelliad	Y cam gweithredu a drefnwyd mewn ymateb i'r argymhelliad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Y swyddog sy'n gyfrifol
A1	**Ymgysylltu'n gynnar ynghylch newidiadau allweddol i'r modd y defnyddir asedau** Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n gynnar ag Aelodau'r Cyngor, y Grŵp Arwain ehangach, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ynghylch yr effaith y bydd newidiadau allweddol yn ei Strategaeth Gweithio Hybrid yn ei chael ar rai o asedau	Mae'r Strategaeth Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro wedi eu datblygu yn sgil cryn ymgysylltu â'r gweithlu. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at waith y Grŵp Ffyrdd Newydd o Weithio o safbwynt patrymau presennol a phatrymau gwaith disgwyliedig, yn ogystal â faint o le sydd ei angen ar gyfer desgiau a pha fath o le sydd ei angen ar gyfer desgiau. O ganlyniad, mae Mannau	Mawrth 2023 – ar gyfer datblygu opsiynau o safbwynt y modd y bydd asedau yn cael eu defnyddio yn y dyfodol	RHP / Grŵp Ffyrdd Newydd o Weithio

Cyfeirnod	Argymhelliad	Y cam gweithredu a drefnwyd mewn ymateb i'r argymhelliad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Y swyddog sy'n gyfrifol
	allweddol y Cyngor, megis y swyddfeydd ym Mhenmorfa a'r cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y modd y bydd dinasyddion yn cael mynediad at wasanaethau.	Hybrid Peilot wedi eu trefnu, er mwyn helpu i fonitro'r ffyrdd newydd o weithio. Bydd hyn yn help i fesur faint o le sydd ar gael a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio lle a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Bydd y cam nesaf yn golygu ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys partneriaid allanol a dinasyddion er mwyn ystyried yr opsiynau a gwneud y defnydd gorau posibl o asedau'r Cyngor.		
A2	**Gweledigaeth ar gyfer y gweithlu a chynllunio'r gweithlu** Gallai prosesau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu ei asedau gael eu cryfhau trwy: • ddiweddaru ei Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau a Chorfforaethol 2018, gan sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r weledigaeth hirdymor gyfredol ar gyfer asedau a'u bod yn cael eu hintegreiddio â'r broses cynllunio busnes;	Cydnabyddir y byddai modd gwneud gwelliannau er mwyn bod â gweledigaeth a chynlluniau hirdymor fwy strategol ar gyfer yr asedau. Dyma sut y bydd hyn yn digwydd: • Diweddaru Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor.	Medi / Hydref 2022 – adolygu trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rheoli a datblygu asedau. Mawrth 2023 – er mwyn paratoi Cynllun Rheoli Asedau	RHP

Cyfeirnod	Argymhelliad	Y cam gweithredu a drefnwyd mewn ymateb i'r argymhelliad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Y swyddog sy'n gyfrifol
	• datblygu cynlluniau cadarn i reoli'r risgiau a ganfuwyd gan arolwg cyflwr 2019; a • disgrifio'n glir sut y mae'n defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy i drefnu strategaethau a chynlluniau sydd â ffocws ar asedau yn y dyfodol.	• Adolygu'r trefniadau rheoli asedau a datblygu asedau fel eu bod yn fwy strategol a haws eu dilyn. • Datblygu rhaglen gyfalaf 10 mlynedd er mwyn cynnal, gwella a, lle bo hynny'n briodol, cael gwared ar asedau'r Cyngor.	Corfforaethol newydd, gan gynnwys cynllun 10 mlynedd i gadw a chynnal asedau.	
A3	**Meincnodi** Dylai'r Cyngor ddatblygu a defnyddio data meincnodi pellach i: • roi cymorth yn fwy fel rhan o'r drefn reolaidd i ddatblygu ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a Gwasanaethau; a • chryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu.	Bydd y Cyngor yn adolygu ei ddefnydd o ddata i gyfrannu at baratoi cynlluniau a darparu fframwaith er mwyn gwella trefniadau yn y dyfodol.	Mawrth 2023 – er mwyn datbygu data meincnodi wrth i gynlluniau gael eu drafftio.	RHP

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Archwilio Cymru
Audit Wales

Camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr Adroddiad: Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli'r Gweithlu'n Strategol

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2971A2022

Cyf.	Argymhelliad	Camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau	Swyddog cyfrifol
A1	**Gweledigaeth ar gyfer y gweithlu a chynllunio'r gweithlu** Gallai gweledigaeth y Cyngor a'i drefniadau cynllunio a monitro ar gyfer y gweithlu gael eu cryfhau trwy: • ddiweddaru ei weledigaeth gorfforaethol ar gyfer y gweithlu; • eu hintegreiddio'n fwy eglur â'i broses Cynllunio Busnes flynyddol haen un; • adolygiad blynyddol o'i gynlluniau strategol ar gyfer y gweithlu;	Mae Cynllun Strategol pum mlynedd o hyd ar gyfer y Gweithlu 2022 – 2027 ar y gweill ac yn cyd-fynd â'r weinyddiaeth newydd a'r Strategaeth Gorfforaethol. Hefyd bydd y broses yn cynnwys y canlynol: • Adolygu'r dull adrodd blynyddol ar gyfer cynlluniau strategol i'r gweithlu a'r integreiddio â'r broses cynllunio busnes • Adolygu'r Strategaeth Gweithio Hybrid gan gynnwys cyflwyno targedau ac amserlenni	Medi/Hydref 2022 - Gwasanaethau i gwblhau Pecyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu yn Strategol Rhagfyr 2022 - Gweithredu targedau ac amserlenni'r Strategaeth Gweithio Hybrid Mawrth 2023 – drafftio a	Geraint Edwards

Cyf.	Argymhelliad	Camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau	Swyddog cyfrifol
	• datblygu darlun mwy cynhwysfawr o sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu; • dangos yn fwy eglur sut y mae'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n gyson i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu; a • datblygu targedau a graddfeydd amser penodol ar gyfer mesurau llwyddiant ei Strategaeth Gweithio Hybrid.	• Ymchwilio ar gyfer fframwaith cymhwysedd sgiliau a datblygu proses asesu'r gweithlu	chymeradwyo Cynllun Strategol y Gweithlu 2022 – 2027 Mawrth 2023 – Datblygu ac asesu fframwaith cymhwysedd sgiliau	
A2	**Meincnodi** Dylai'r Cyngor fynd ati'n fwy fel rhan o'r drefn reolaidd i wneud gwaith meincnodi mewn perthynas â'r gweithlu er mwyn cryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu.	• Bydd y Cyngor yn adolygu ei fesurau meincnodi presennol a'i ddefnydd o data er mwyn llywio'r gwaith o baratoi cynlluniau a chynnig fframwaith ar gyfer gwella trefniadau hunanasesu yn y dyfodol.	Mawrth 2023	Geraint Edwards